Cynlluniau Datblygu Lleol – rhai diffiniadau defnyddiol

- **Cynllun Datblygu Lleol (neu 'CDLl')**

Y cynllyn datblygu defnydd o dir statudol ar gyfer ardal pob awdurdod cynllunio lleol. Dylai'r CDLl gynnwys:

1) gweledigaeth

2) strategaeth

3) polisïau ardal-gyfan ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau

4) dyraniadau tir, ac os bydd angen, polisïau a chynigion ar gyfer meysydd allweddol o newid a gwarchodaeth.

- **Cynllun Cynnwys Cymunedau (neu 'CCC')**

Yn nodi cynllun a pholisïau prosiect ar gyfer cynnwys cymunedau lleol, gan gynnwys busnesau, wrth baratoi CDLl (gweler hefyd y Cytundeb Cyflawni isod).

- **Cytundeb Cyflawni**

Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer paratoi'r CDLl ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau. Caiff y Cytundeb Cyflawni ei gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad er mwyn iddi gytuno arni.

- **Sail tystiolaeth**

Gwybodaeth neu ddata sy'n darparu'r sail ar gyfer paratoi polisïau cynllunio.

- **Rhanddeiliaid**

Pobl sydd â buddiannau a gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan y CDLl. Cânt eu cynnwys fel arfer drwy gyrff cynrychioliadol.